Road Safety Wales
Diogelwch Ffyrdd Cymru
Low Down

# Cyflwyno cyfyngiadau cyflymder 20mya

**Mae'r Senedd wedi cymeradwyo deddfwriaeth i ostwng y terfyn cyflymder cenedlaethol diofyn ar ffyrdd preswyl a strydoedd prysur i gerddwyr o 30mya i 20mya.**

**Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU i wneud hyn - gan helpu i achub bywydau, datblygu cymunedau mwy diogel, gwella ansawdd bywyd ac annog mwy o bobl i wneud dewisiadau teithio mwy cynaliadwy a llesol.**

**Mae'r terfynau cyflymder arafach newydd yn cael eu treialu ar hyn o bryd mewn wyth cymuned ledled Cymru a chânt eu cyflwyno'n genedlaethol ym mis Medi 2023.**

**Ni fydd y ddeddfwriaeth newydd yn gosod terfyn cyflymder cyffredinol ar bob ffordd, ond bydd yn gwneud terfyn diofyn o 20mya, gan adael i awdurdodau lleol, sy'n adnabod eu hardal orau, i gysylltu â'r gymuned leol i benderfynu pa ffyrdd ddylai aros ar 30mya.**

**Ar hyn o bryd, dim ond 2.5% o ffyrdd Cymru sydd â therfyn cyflymder o 20mya, ond o'r flwyddyn nesaf disgwylir i hyn gynyddu i tua 35%, gan helpu i greu ffyrdd a chymunedau mwy diogel ledled Cymru.**

**Wrth siarad ar ôl y bleidlais, dywedodd Julie James, y Gweinidog dros y Newid yn yr Hinsawdd, "Rwy'n falch iawn bod y newid i 20mya wedi derbyn cefnogaeth trawsbleidiol ar draws Senedd Cymru heddiw. "Mae'r dystiolaeth yn glir, mae lleihau cyflymder nid yn unig yn lleihau damweiniau ac yn achub bywydau, ond yn helpu i wella ansawdd bywyd pobl - gan wneud ein strydoedd a'n cymunedau yn lleoedd mwy diogel a chroesawgar i feicwyr a cherddwyr, tra'n helpu i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd.**

**"Rydym yn gwybod na fydd y newid hwn yn hawdd – mae'n ymwneud cymaint â newid calonnau a meddyliau ag y mae'n ymwneud â gorfodi – ond dros amser bydd 20mya yn dod yn norm, yn union fel y cyfyngiadau rydym wedi'u cyflwyno o'r blaen ar daliadau am fagiau siopa a rhoi organau.**

**"Unwaith eto, mae Cymru'n arwain y ffordd i wledydd eraill y DU."**

**YN Y RHIFYN HWN:**


**Cymeradwyo deddfwriaeth 20mya**
**Ymwybyddiaeth o ddiogelwch ceffylau**
**Lansio cangen Ymchwilio Diogelwch Ffyrdd**
**Abertawe'n cynyddu pwyntiau gwefru EV**
**Wythnos Genedlaethol Iechyd Llygaid**
**Ap newydd TrawsCymru**

# Hybu ymddygiad mwy diogel wrth yrru yn ymyl ceffylau

**Mae Diogelwch Ffyrdd Cymru yn tanlinellu mor agored i niwed yw ceffylau a'u marchogion drwy ymgyrch sy'n atgoffa gyrwyr am eu cyfrifoldebau wrth rannu lle ar y ffordd gyda defnyddwyr ffyrdd sydd â cheffylau.**

**Ers dechrau'r fenter yn Sir Gaerfyrddin, mae posteri newydd yr ymgyrch sy'n cyd-fynd a'r fersiwn diweddaraf o Reolau'r Ffordd Fawr, wedi'u darparu bellach i bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.**

**Dywedodd Teresa Ciano, Cadeirydd y bartneriaeth, "Mae Diogelwch Ffyrdd Cymru yn ddiolchgar i Gyngor Sir Gâr am ysgogi ymgyrch i godi ymwybyddiaeth ymysg gyrwyr a all gael ei rhoi ar waith bellach ledled Cymru, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru.**

**"Diolch hefyd i Gymdeithas Ceffylau Prydain am ddarparu data amhrisiadwy drwy'r adran riportio digwyddiadau ar eu gwefan nhw bhs.org.uk. Mae hyn wedi helpu i sicrhau bod modd gosod y cyngor yn y fan lle mae'r angen mwyaf, mewn mannau lle mae llawer o ddigwyddiadau yn ogystal ag ar lwybrau sy'n cael eu defnyddio'n aml gan gymuned y ceffylau."**

**Dywedodd y Cynghorydd Edward Thomas, yr Aelod o Gabinet Cyngor Sir Caerfyrddin dros Drafnidiaeth, Gwastraff a Gwasanaethau Seilwaith: "Rwy'n falch iawn fod yr ymgyrch yma, gafodd ei lansio yn Sir Gaerfyrddin yr haf diwethaf, yn cael ei hymestyn ledled Cymru erbyn hyn.**

**"Mae'n bwysig bod gyrwyr, yn enwedig yn yr ardaloedd mwyaf gwledig yng Nghymru, yn ymwybodol bod ceffylau yn debygol o fod ar y ffordd a'u bod nhw'n eu trin nhw gyda pharch drwy beidio gyrru'n rhy gyflym a rhoi digon o le iddyn nhw."**

**Dywedodd y Gweinidog Newid Hinsawdd sydd â chyfrifoldeb dros Drafnidiaeth, Julie James: "Yn aml, mae angen atgoffa modurwyr am y peryglon sy'n cael eu creu i geffylau a marchogion, yn enwedig wrth yrru ar ffyrdd cefn gwlad yn ystod y tymor gwyliau ac rwy'n ddiolchgar i Diogelwch Ffyrdd Cymru am gyflwyno'r ymgyrch bwysig iawn yma."**

**Mae Diogelwch Ffyrdd Cymru yn annog pobl i roi gwybod am ddigwyddiadau a damweiniau o hyd er mwyn ehangu'r gronfa wybodaeth am ddigwyddiadau sy'n cynnwys ceffylau. Bydd sicrhau data mwy cywir ar amlder a difrifoldeb digwyddiadau yn helpu i adnabod tueddiadau a gall gael ei ddefnyddio i amlygu a thaclo'r risg sy'n wynebu defnyddwyr ffyrdd sydd â cheffylau yn fwy effeithiol.**

**Mae modd rhoi gwybod am ddigwyddiadau yn gyflym ac yn hawdd hefyd drwy ddefnyddio ffôn neu dabled, drwy gyfrwng ap di-dâl y BHS Horse i.**

# Cangen Ymchwilio Newydd yn canolbwyntio ar Ddiogelwch ar y Ffyrdd

**Yn sgil cyfnod ymgynghori, mae'r Adran Drafnidiaeth wedi cadarnhau y bydd Cangen Ymchwilio Diogelwch Ffyrdd (RSIB) yn cael ei ffurfio. Bydd tîm arbenigol o arolygwyr yn cael ei recriwtio i ymchwilio i ddigwyddiadau ar ffyrdd y Deyrnas Unedig ac i roi dealltwriaeth o'r hyn y mae angen ei newid i helpu i achub bywydau.**

**Bydd y cam yn helpu i sicrhau bod rhai o'r safonau diogelwch ffyrdd uchaf yn y byd yn dal i gael eu cyrraedd wrth i'r rhwydwaith ffyrdd gael ei foderneiddio. Daw hyn fel yr ymdrech ddiweddaraf i leihau anafiadau a marwolaethau, hybu diogelwch a lleihau cost gwrthdrawiadau traffig ffyrdd i'n GIG a'n heconomi – rhyw £30 biliwn y flwyddyn.**

**Bydd y gangen yn ymchwilio i themâu yn achosion gwrthdrawiadau, yn ogystal â digwyddiadau penodol sy'n peri pryder, er mwyn dysgu gwersi diogelwch gwerthfawr ar y ffyrdd. Bydd yn gwneud argymhellion annibynnol ar ddiogelwch i sefydliadau, fel y llywodraeth a heddluoedd, i lywio dyfodol polisi diogelwch ar y ffyrdd yn well a darparu siwrneiau gwell, gwyrddach a mwy diogel.**

**Bydd yr uned arbenigol hefyd yn rhoi cipolwg hanfodol ar dueddiadau diogelwch sy'n gysylltiedig â thechnolegau newydd ac esblygol, a allai gynnwys cerbydau hunan-yrru a cherbydau trydan, er mwyn sicrhau bod y wlad yn cynnal rhai o'r safonau diogelwch ffyrdd uchaf yn y byd ac y bydd technoleg newydd gyffrous yn cael ei defnyddio'n ddiogel.**

**Fydd y gangen ddim yn nodi bai nac atebolrwydd ac felly nid yw'n disodli ymchwiliadau'r heddlu. Yn hytrach, bydd yn defnyddio'r holl dystiolaeth sydd ar gael i wneud argymhellion er mwyn gwella diogelwch ar y ffyrdd ac i liniaru neu atal digwyddiadau tebyg yn y dyfodol.**

# Y cyngor yn gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan newydd

**Mae pedwar ar bymtheg o bwyntiau gwefru cerbydau trydan newydd wedi'u gosod mewn 12 maes parcio sy'n eiddo i'r cyngor Mae'r ychwanegiadau diweddaraf yn golygu bod 43 o bwyntiau gwefru cerbydau trydan bellach mewn 25 o leoliadau ar draws y sir a weithredir gan y cyngor Dywedodd Andrea Lewis, Dirprwy Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau, y bydd y pwyntiau gwefru yn hwb go iawn i berchnogion ceir trydan presennol a'i nod yw annog rhagor o bobl i ystyried newid o gerbydau petrol neu ddiesel yn y dyfodol.**

**Meddai, "Dewiswyd y pwyntiau gwefru sydd newydd eu gosod yn dilyn trafodaethau gydag aelodau ward ac eraill ac maent wedi'u lleoli'n benodol er hwylustod i bobl sy'n ymweld am y dydd a phobl sy'n siopa mewn cymunedau lleol.**

**Ychwanegodd, "Mae Cyngor Abertawe wedi ymrwymo i fod yn gyngor carbon sero-net erbyn 2030 ac i'r ddinas gyfan gyrraedd y targed hwnnw erbyn 2050. Y pwyntiau gwefru cerbydau trydan newydd yw'r cam diweddaraf i'r cyfeiriad cywir a'n bwriad yw cynyddu eu niferoedd dros y blynyddoedd nesaf. Ond megis dechrau yw hyn."**

**Mae Cyngor Abertawe hefyd yn arwain trwy esiampl ar gerbydau trydan, gyda'r nod o gwblhau ei newid o gerbydau petrol a diesel traddodiadol i gerbydau allyriadau isel iawn dros y blynyddoedd nesaf. Mae gan y cyngor y cerbydlu mwyaf o gerbydau trydan yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn barod a'i nod yw ychwanegu 25 o gerbydau ychwanegol yn ystod y misoedd nesaf at y 60 y mae eisoes yn eu gweithredu.**

# Wythnos Genedlaethol Iechyd Llygaid

**Cafodd Wythnos Genedlaethol Iechyd Llygaid ei chynnal rhwng 20 a 25 Medi 2022, gan geisio hybu pwysigrwydd iechyd y llygaid a'r angen i gael prawf llygaid yn rheolaidd. Mae golwg dda yn hanfodol wrth ichi ddefnyddio'r ffordd, waeth beth fo'ch oedran. Rhaid i yrwyr a beicwyr modur allu darllen plât cofrestru cerbyd o bellter o 20 metr (neu 20.5 metr os cafodd y cerbyd ei gofrestru cyn Medi 2001) gan wisgo sbectol neu lensys cyffwrdd os oes eu hangen.**

**Os ydych yn ei chael yn anodd darllen arwyddion ffordd, yn enwedig y rhai â thestun arnynt, gallai hynny fod yn arwydd bod eich golwg wedi dirywio ac y gall fod angen lensys i gywiro'ch golwg. Os ydych yn ei chael yn anos gweld yn glir yn y tywyllwch, fe allai hynny hefyd olygu bod angen ichi wisgo sbectol neu lensys cyffwrdd.**

**Er bod golwg yn aml yn dirywio wrth inni fynd yn hŷn, gall anhwylderau'r llygaid ddatblygu unrhyw bryd. Mae glawcoma a philenni ar y llygaid yn adnabyddus ond o'u gadael heb eu trin, gall clefydau eraill sy'n gysylltiedig ag oedran effeithio ar eich gallu i ddefnyddio'r ffordd yn ddiogel hefyd. Yn ystod prawf llygaid, gallai anhwylderau iechyd eraill sy'n ddiarwybod ichi hyd yn hyn, megis diabetes neu bwysedd gwaed uchel, gael eu canfod hefyd – a dyna reswm arall dros gael profion yn rheolaidd.**

**Dywedodd Teresa Ciano, Cadeirydd Diogelwch Ffyrdd Cymru, "Rydyn ni'n argymell cael prawf ar eich llygaid bob dwy flynedd, neu'n amlach os bydd eich optegydd yn awgrymu hynny. Gall hyn nid yn unig helpu i sicrhau eich bod yn bodloni'r safonau gofynnol ar gyfer gyrru neu reidio, ond canfod anhwylderau'n gynnar hefyd cyn iddyn nhw ddatblygu. Dylech wybod eich bod yn gallu wynebu dirwy o hyd at £1000 os byddwch yn gyrru a'ch golwg o dan y safon gyfreithiol sy'n ofynnol.**

**"Bydd Diogelwch Ffyrdd Cymru'n cefnogi Wythnos Genedlaethol Iechyd Llygaid drwy eu gwefan a'u sianeli yn y cyfryngau cymdeithasol, gan atgoffa pobl am bwysigrwydd profion llygaid rheolaidd a'r anhwylderau cyffredin a allai gyfaddawdu diogelwch holl ddefnyddwyr y ffyrdd."**

# Trafnidiaeth Cymru yn lansio ap newydd TrawsCymru

**Mae Trafnidiaeth Cymru wedi lansio ap newydd ar gyfer ei rwydwaith bysiau pellter hir Traws Cymru a fydd yn ei gwneud yn haws i bobl deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus.**

**Bydd yr ap newydd yn helpu cwsmeriaid i gynllunio eu teithiau, amserlenni bysiau a bydd yn rhoi opsiynau olrhain cerbydau byw iddynt, fel y olrhain lleoliad eu bws ar y rhwydwaith. Bydd hefyd yn cynnig opsiwn i brynu tocynnau ar yr ap, darparu mynediad digidol i wasanaethau TrawsCymru ac yn arddangos yr arbedion carbon a wneir wrth ddewis teithio ar fws.**

**Trwy ddarparu gwybodaeth gliriach ar blatfform digidol mwy hygyrch, bydd yr ap yn cefnogi nod Llywodraeth Cymru o gyflawni system fysiau sy'n hybu tegwch cymdeithasol ac sy'n gallu cyflawni'r raddfa o newid yn y ffordd rydym yn teithio sydd ei angen i frwydro yn erbyn yr argyfwng hinsawdd.**

**Mae TrawsCymru yn rhan annatod o rwydwaith bysiau Cymru, gan ddarparu cysylltiadau rhwng trefi a dinasoedd mawr a helpu pobl i gysylltu â chyrchfannau gwaith, addysg, iechyd a hamdden.**